

## **Triniaeth Steroid yn Hylif Gwydrog y Llygad i drin Dyfrchwydd Macwlaidd**

### **Uned y Llygaid**

#### **Beth sy'n bod ar fy llygad?**

- Mae gennych rywbeth o'r enw Dyfrchwydd Macwlaidd.

#### **Beth mae hyn yn ei olygu?**

- Yng nghefn eich llygad, mae haen denau o'r enw'r retina. Dyma'r rhan o'r llygad sy'n dal yr hyn rydych yn ei weld.
- Yn agos at ganol y retina mae'r macwla, sy'n gyfrifol am eich golwg miniog a manwl. Dyma'r rhan sy'n caniatáu i chi ddarllen, gwneud gwaith manwl, adnabod wyneb ac ati.
- Nid yw Dyfrchwydd Macwlaidd yn boenus.
- Mae'n achosi i'ch golwg canolog fod yn niwlog neu'n donnog, ac mae lliwiau'n ymddangos wedi pylu
- Mae Dyfrchwydd Macwlaidd yn datblygu pan mae pibelli gwaed yn y retina yn gollwng.
- Gall eich golwg canolog gael ei effeithio'n wael, er yn aml iawn nid oes effaith ar eich golwg ymylol

#### **Pam fod hyn wedi digwydd i mi?**

- Mae sawl achos posib i ddyfrchwydd macwlaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:-
  - ❖ Clefyd y siwgr
    - Mae retinopatheg diabetig yn achos cyffredin iawn o ddyfrchwydd macwlaidd.
    - Dyma pan fydd pibelli gwaed wedi'u difrodi yn y retina yn dechrau gollwng hylif. Mae'n bosib y bydd symiau bach o waed neu fraster.
    - Mae'r gollyngiad hwn yn achosi i'r macwla chwyddo.

- ❖ Rhwystrad yng Ngwythïen y Retina
  - Mae'n bosib bod gennych geulad yng nghefn eich llygad, sy'n achosi i'r macwla chwyddo.
- ❖ Uveitis – Llid yw hwn y tu fewn i'r llygad.
- ❖ Llawdriniaeth gataract ddiweddar
  - Gall hyn gynyddu'r perygl y gallech ddatblygu dyfrchwydd macwlaidd gan fod pibelli gwaed yn gallu cael eu haflonyddu neu ollwng hylif.

### **Pa brofion sydd rhaid i mi eu cael?**

- Gydag OCT (*optical coherence tomography*), defnyddir camera arbennig i dynnu llun o'ch retina. Mae'n fesur trwch y retina ac mae'n sensitif iawn hefyd wrth adnabod chwydd a hylif. Mae'n aml yn cael ei ddefnyddio i fonitro effaith triniaeth.
- Mae'n bosib bydd eich meddyg am i chi gael prawf yn defnyddio lliw a elwir yn angiograffeg fluorescein (lle mae lliw fflworoleuol yn cael ei chwistrellu i'r gwaed) all ddangos beth sy'n achosi'r gollyngiad

### **Sut mae ei drin?**

- Triamcinolone acetate a dexamethasone (Ozurdex) yw'r prif feddyginiaethau steroid yr ydym ni'n eu defnyddio ar gyfer dyfrchwydd macwlaidd.

### **Sut mae'r rhain yn cael eu rhoi?**

- Defnyddir anesthetig lleol i rewi'r llygad, a rhoir nodwydd fechan iawn i mewn i'r llygad i roi'r feddyginiaeth lle mae ei hangen.

### **A fydd yn gwella fy ngolwg?**

- Mae'r chwistrelliad steroid fel arfer yn rhwystro'r hylif rhag gollwng yng nghefn y llygad.
- Mae'r golwg fel arfer yn gwella.
- Fodd bynnag, nid yw'n debygol o gael ei adfer yn llwyr.

## **I ble rwy'n mynd i gael triniaeth?**

- Fel arfer bydd rhaid i chi ddod i'r uned achosion dydd i lygaid. Mae'r uned hon ger y theatr llygaid lle caiff y driniaeth ei chynnal.

## **Pan fyddwch yn cyrraedd**

- Bydd gennych nyrs gyswllt fydd yn edrych ar eich hôl pan fyddwch yno.
- Cewch ddiferion ymledol yn eich llygad, i wneud kannwyll y llygad yn fwy. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r driniaeth gael ei rhoi.
- **Peidiwch â gyrru i mewn.**
- Os yn bosib, trefnwch i rywun ddod â chi i mewn, neu gallwch drefnu cludiant ambiwlans i'r uned lygaid ac yn ôl.
- Bydd y driniaeth yn para rhyw 20 munud. Mae hyn yn cynnwys cael anesthetig lleol.

**❖ Dylech fod yn ymwybodol y gallech fod yn yr uned am 1 – 2 awr gan y bydd nifer o bobl yn cael triniaeth ar yr un diwrnod.**

## **Beth sy'n digwydd ar ôl y driniaeth?**

- Fel arfer **ni fydd** angen gorchuddio'r llygad.
- Cewch ddiferion llygad gan eich nyrs, fel arfer am 4 diwrnod, ac weithiau dabledi i reoli unrhyw gynnydd posib mewn pwysedd yn eich llygad.
- Cewch apwyntiad i ddod yn ôl i'r clinig mewn 2-3 wythnos, fel bod eich meddyg llygad yn gallu asesu sut mae'r driniaeth wedi gweithio.
- Gallwch ddisgwyl brychau bach (cysgodion yn edrych fel penbyliaid) yn eich llygad am rai wythnosau.
- Weithiau mae'n cael ei ddisgrifio fel edrych drwy storom eira.
- Dylai hyn setlo mewn amser.

## **Cymhlethdodau**

- Nid oes yr un driniaeth heb berygl
- Y prif bryder yw haint, ond dim ond mewn llai nag un mewn mil o driniaethau y digwydd hyn.
- Gall problemau posib eraill gynnwys:-
  - ❖ Pwysedd y llygad yn codi (glaucoma):-
    - Pan fo angen mwy nag un driniaeth gall hyn ddigwydd mewn hyd at draean o achosion.
    - Mae fel arfer yn setlo ohono'i hun ond efallai y bydd angen triniaeth â diferion llygaid.
  - ❖ Niwed i'r retina, yn arwain at rwyg yn y retina, neu retina rhydd
- Mae'n bosib bydd y llygad yn goch am rai dyddiau ar ôl y driniaeth, ond dylai hyn setlo.

## **Sawl chwistrelliad fydd angen arnaf?**

- Mae'n bosib y cymer sawl mis i ddyfrchwydd macwlaidd i ddatrys ei hun.
- Os ydych yn ymateb yn dda i driniaeth mae'n bosib y bydd angen ond un chwistrelliad arnoch.
- Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen triniaeth bellach arnoch ar ôl cyfnodau o rhwng 4 a 18 mis.
- Bydd eich meddyg llygad yn trafod hyn gyda chi pan ddewch yn ôl i'r clinig.

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English”.**